



Aelodau'r Senedd ac Aelodau Seneddol Cymru

1 Awst 2023

Annwyl Gydweithwyr

Hoffwn rannu gyda chi eto nifer o astudiaethau achos o sefydliadau'r GIG y maent yn falch ohonynt. Maen nhw wedi'u coladu fel rhan o Fwrdd Arweinyddiaeth GIG Cymru a gynhelir yn fisol.

Yn ogystal, mae'n bleser gennyf eich hysbysu ein bod wedi lansio'r ymgyrch genedlaethol yn ddiweddar i hyrwyddo GIG 111 Cymru Pwys 2 fel y dewis i gael mynediad at wasanaethau iechyd meddwl brys.

Mae'r gwasanaeth ar gael i bobl o bob oed, 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos ym mhob rhan o Gymru, i sicrhau bod pobl sydd angen cymorth yn gallu cael gafael arno'n gyflym pan fydd ei angen arnynt fwyaf. Os ydych chi eisiau siarad â rhywun ar frys am eich iechyd meddwl, neu os ydych chi'n poeni am aelod o'r teulu, ffoniwch GIG 111 Cymru a phwys 2 i gael eich cysylltu'n uniongyrchol â gweithiwr iechyd meddwl yn eich ardal.

Gallwch ffonio am ddim o linell ffôn neu ffôn symudol, hyd yn oed os nad oes gennych gredyd ar ôl.

Mae manylion uchafbwyntiau pob sefydliad wedi'u cynnwys isod:

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

- **Gofal Iechyd Seiliedig ar Werthoedd sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn**

Datblygwyd y Rhaglen Hyfforddi a Datblygu Gofal Iechyd Seiliedig ar Werthoedd sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn i Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan gan y tîm Gofal Iechyd Seiliedig ar Werthoedd a'r arweinwyr gofal iechyd byd-eang 'Sprink'. Cynhaliodd y bwrdd iechyd ddigwyddiad deuddydd gyda thros 65 o aelodau staff o bob cwr o'r Bwrdd Iechyd.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rhoddodd y digwyddiad gyfle i ddysgu gan arbenigwyr rhyngwladol cydnabyddedig gyda'r Tîm Gofal Iechyd Seiliedig ar Werthoedd ac Arloesedd yn darparu trosolwg o daith gwerthoedd y Bwrdd Iechyd a'r llwyddiannau hyd yn hyn. Canolbwyntiwyd ar yr adnoddau achrededig a ddatblygwyd ac sydd ar gael i weithredu dull seiliedig ar werthoedd ar gyfer canlyniadau cleifion a gwella llwybrau.

Disgrifiodd y digwyddiad sut roedd canlyniadau cleifion yn cael eu hystyried yn hanfodol ar gyfer cynllunio gwasanaethau yn y Bwrdd Iechyd ac yn cael eu dal a'u defnyddio'n helaeth i wneud penderfyniadau gan dîm y ganolfan ganser. Cafodd gwasanaeth arloesol methiant y galon dan arweiniad nyrsys y Bwrdd ei arddangos hefyd fel enghraifft o brosiect gofal seiliedig ar werthoedd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Dros y 12 mis nesaf mae yna raglen gynhwysfawr i gefnogi staff a grwpiau sy'n mabwysiadu'r fframwaith Gofal Iechyd Seiliedig ar Werthoedd.

- **Lansio Model Derbyniadau Uniongyrchol Ymateb Cyflym Tîm Adnoddau Cymunedol Ward Tyleri**

Mae Model Derbyniadau Uniongyrchol Ymateb Cyflym wedi'i lansio yn Ysbyty Aneurin Bevan yng Nglynebwy.

Mae'r model newydd yn golygu y gall cohort mawr o gleifion bregus a/neu oedrannus sydd ag anghenion iechyd a gofal cymdeithasol aros yn eu cartref arferol os oes ganddynt fynediad i gymorth ychwanegol yn y gymuned.

Prif bwrpas y llwybr newydd yw darparu'r amgylchedd clinigol mwyaf addas i ddarparu gofal diogel ac effeithiol, wedi'i deilwra i ddiwallu anghenion unigolion ym Mlaenau Gwent.

Bydd y Model Derbyniadau Uniongyrchol Ymateb Cyflym yn darparu triniaeth feddygol a nyrsio ac ymyriadau amlddisgyblaethol amserol, a/neu'n darparu ateb ar gyfer problem gymdeithasol gritigol. Bydd yn cefnogi rhyddhau cleifion yn ôl i'w lle preswyllo arferol hefyd.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

- **Ward ysbyty yn agor caffï dementia i gleifion a pherthnasau sy'n ymweld**

Gall cleifion ar ward pobl hŷn Ysbyty Maelor Wrecsam fynd allan o'r ward am baned a chacen gyda'u teuluoedd erbyn hyn.

Mae'r caffï, a agorodd y mis hwn, ar gael am ddim i gleifion a'u teuluoedd. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi creu 'arhosfan bws' y tu allan i'r caffï hefyd gydag amserlen i roi teimlad o fynd allan gyda cyd-gleifion neu i weld eu hymwelwyr.

Mae'r caffï'n cael ei ystyried yn gyfleuster tawel i gleifion sy'n byw gyda dementia pan maent mewn amgylchedd anghyfarwydd yn yr ysbyty.

- **Gweithgarwch ychwanegol yn helpu i ostwng amseroedd aros i gleifion allanol**

Mae'r bwrdd Iechyd wedi cynyddu'r gweithgarwch cleifion allanol y mae'n ei gyflawni gan ddefnyddio adnoddau ychwanegol. Mae hyn wedi arwain at lefelau gweithgarwch sy'n gyson uwch na'r lefelau cyn COVID-19. O ganlyniad, mae hyn yn golygu bod y rhestr aros dros 52 wythnos i gleifion allanol wedi gostwng 47% ers diwedd mis Rhagfyr 2022 ac mae 57% yn is na'r uchafbwynt ym mis Awst 2022.

- **Defnyddio Deallusrwydd Artiffisial i wneud diagnosis o ganser**

Mae'r bwrdd iechyd wedi arwain y ffordd wrth ddefnyddio meddalwedd Dealltwriaeth Artiffisial i helpu i wneud diagnosis o ganser y prostad. Mae'r bwrdd bellach yn defnyddio'r feddalwedd yn yr hyn a elwir yn "batholeg gyfrifiadurol" er mwyn helpu i wneud diagnosis o ganserau y fron.

Mae'r teclyn, a elwir yn blatfform Galen ac a ddatblygwyd gan Ibcx Medical Analytics, wedi'i dreialu yn y bwrdd iechyd. Y tîm hwn yw'r cyntaf yn y DU i'w ddefnyddio'n glinigol i gynorthwyo diagnosis o ganser y fron.

Pan gafodd ei ddefnyddio yn ystod y cynllun treialu blaenorol fel teclyn diagnostig ar gyfer cancer y prostad, edrychodd y rhaglen ar 1,600 o fiopsïau a rhoddwyd 13% yn fwy o ddiagnosis cancer na fyddai wedi bod heb gymorth y teclyn Deallusrwydd Artiffisial.

Y gwahaniaeth gwirioneddol yn y maes clinigol hwn yw nad ydynt yn chwilio am farcwyr cancer diagnostig yn unig ond maen nhw hefyd yn chwilio am farcwyr prognosis a fydd yn nodi pa driniaethau neu gyfuniad o driniaethau a fydd yn effeithiol i gleifion. Bydd hyn o gymorth i wneud diagnosis cyflymach o ba ganserau penodol y mae cleifion yn dioddef ohonynt. Yn ei dro, gallai hyn lywio penderfyniadau ynghylch triniaethau yn gyflymach.

O ran y profion ar gyfer cancer y prostad, gwelwyd bod y teclyn yn 100% dibynadwy. Pan nododd y teclyn fod celloedd canseraidd yn bresennol, cafodd y broses ddiagnostig ei byrhau ond, yn bwysicach fyth, roedd yn rhoi sicrwydd i batholegwyr eu bod yn canfod cymaint o achosion â phosibl.

Yn sgil y gwahanol fathau o ganser y fron sydd angen amrywiaeth o driniaethau, mae symleiddio'r system ddiagnosis yn hollbwysig i'r tîm.

Mae'r platfform Galen yn ennill gwybodaeth wrth iddo gael ei ddefnyddio. Bydd patholegwyr yn gwirio'r canlyniadau a amheuir er mwyn sicrhau cywirdeb a bydd y system yn dysgu o'u mewnbwn nhw ar gyfer profion yn y dyfodol.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

- **Dathlu gwaith y Tîm Darlifiad Rhanbarthol Normothermig**

Mae'r Bwrdd Iechyd yn dathlu gwaith arloesol ei dîm adfer organau, sydd wedi gwella hyfywedd organau a roddwyd drwy ddefnyddio technoleg Darlifiad Rhanbarthol Normothermig (NRP). Mae'r dechneg chwyldroadol hon yn adfer gwaed wedi'i ocsigeneiddio i organau a roddwyd ar ôl i unigolyn farw, gan wella eu hansawdd ar gyfer trawsblaniad yn sylweddol ac arwain at well canlyniadau i dderbynwyr trawsblaniad.

Ers cyflwyno technoleg NRP yn 2022 y tîm yw'r rhaglen NRP fwyaf ond dwy yn y DU erbyn hyn ac fe'i henwebwyd am gydnabyddiaeth genedlaethol ar gyfer Rhagoriaeth mewn Adfer Organau a Meinweoedd. Mae ymroddiad y tîm i wella canlyniadau trawsblaniadau wedi cael effaith gadarnhaol ar gleifion lleol a nifer o gleifion mewn rhannau eraill o'r wlad. Mae'r tîm, sy'n cynnwys wyth llawfeddyg adfer profiadol ac wyth ymarferydd sgrwb, yn ymroddedig i symud ffiniau ac mae'n ehangu'n barod i fodloni galw cynyddol.

Yn ddiweddar, cyflawnodd y tîm NRP 4 adferiad NRP mewn wythnos a helpu i achub bywydau 6 derbynnydd trawsblaniad aren ac un trawsblaniad iau.

Cafwyd cymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru i helpu i sefydlu'r rhaglen NRP yng Nghaerdydd.

- **Treial clinigol biopsi hylif ‘QuicDNA’ sydd newydd ei lansio yn ceisio gwella’r daith ddiagnostig i gleifion cancer yr ysgyfaint**

Mae treial clinigol newydd wedi’i lansio a fydd yn gwerthuso manteision prawf biopsi hylif arloesol mewn pobl yr amheuir bod ganddynt ganser yr ysgyfaint.

Gwnaed hyn yn bosibl drwy Wasanaeth Genomeg Feddygol Cymru Gyfan (AWMGS), Illumina Technology, Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru, a sawl sefydliad partner, a bydd yr astudiaeth newydd hon yn edrych ar sut y gall defnyddio prawf gwaed biopsi hylif yn gynharach yn y broses ddiagnostig wella a chyflymu diagnosis, lleihau’r amser rhwng diagnosis a thriniaeth, a darparu gwybodaeth maes o law am sut y gellir defnyddio’r dechnoleg hon ar gyfer mathau eraill o ganser.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf

- **Swydd ymarfer uwch yn helpu i wella llwybrau cancer ac amseroedd aros i gleifion radioleg.**

Mae swydd Llywiwr Canser Radiograffeg ymarfer uwch newydd yn y Bwrdd Iechyd wedi lleihau amseroedd aros a gwella llwybrau cancer i gleifion radioleg – gan sganio bron i 400 yn fwy o gleifion yn yr wyth mis ers i’r swydd gychwyn.

Cyflwynwyd y swydd ym mis Awst 2022 yn Ysbyty Tywysoges Cymru, diolch i gyllid gan Lywodraeth Cymru drwy Raglen Arloesedd Gofal a Gynlluniwyd Comisiwn Bevan. Nod Prosiect Llywio Llwybrau Radioleg oedd lleihau oedi rhwng diagnosis a thriniaeth i gleifion cancer yn sylweddol – gan arwain at ganlyniadau gwell a chyfraddau goroesi uwch.

Mae’r Llywiwr yn gweithredu fel canllaw i gleifion hefyd, yn esbonio archwiliadau a gweithdrefnau radioleg, yn ogystal â chyfuno sawl prawf mewn un ymweliad â’r Adran Radioleg. Mae’r Llywiwr yn gyswllt hanfodol hefyd rhwng y timau radioleg a chlinigol, fel pwynt cyswllt a phresenoldeb mewn cyfarfodydd tîm amlddisgyblaeth i uwchgyfeirio cleifion drwy’r llwybr a helpu gydag atgyfeiriadau ymlaen.

Roedd y camau cyntaf yn cynnwys newid y broses atgyfeirio ac awdurdodi gan alluogi gostyngiad cyflym o bum niwrnod i un diwrnod ar gyfer atgyfeiriadau brys achosion tybiedig o ganser. Canolbwyntiodd y prosiect ar ganser yr ysgyfaint a chanser y coluddyn, gyda gwelliannau sylweddol yn cael eu gwneud yn cynnwys lleihau amser aros ar gyfer sganio cam CT, yn dilyn pelydr-x positif ar y frest neu golonosgopi positif. O ganlyniad i weithredu swydd y Llywiwr, llwyddwyd i arbed deuddeg awr a hanner o amser staff radioleg bob wythnos.

Mae’r swydd newydd hon wedi bod yn fenter newydd gyffrous i bawb sy’n gysylltiedig â hi ac wedi profi, o fewn ei chwe mis cyntaf, ei bod yn swydd uchel ei pharch ac wedi gwella’r ffordd y mae gwasanaethau Radioleg yn cael eu darparu i gleifion cancer yn ardal Pen-y-bont ar Ogwr.

Mae yna gyfle pellach i ehangu’r swydd ar draws y Bwrdd Iechyd ac i greu tîm o Lyw-wyr Radioleg ledled Cymru.

- **Arbenigwr Nyrsio Clinigol Cancer y Fron Eilaidd cyntaf Cymru yn ymuno â Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg**

Mae Arbenigwr Nyrsio Clinigol Cancer y Fron Eilaidd cyntaf Macmillan yng Nghymru wedi ymuno â Bwrdd Iechyd y Brifysgol.

Cancer y fron eilaidd yw pan fo celloedd cancer o ganser a ddechreuodd yn y frest yn lledaenu i rannau eraill o'r corff. Gall gael ei alw'n ganser y fron metastatig a chanser datblygedig y fron hefyd.

Gellir rheoli cancer y fron eilaidd, am flynyddoedd lawer yn aml, ond ni ellir ei wella'n llwyr. Mae triniaethau newydd a gwell yn golygu bod menywod a dynion sydd â chanser y fron eilaidd yn byw'n hirach, ond mae'n ddiagnosis cymhleth lle gall cleifion gael eu heffeithio gan nifer o broblemau iechyd, ond pryder mawr i'r claf yn aml yw wynebu cancer eto. Bydd y swydd hon yn dod ag arbenigedd cancer ac yn darparu gofal medrus a phersonol, gan wella'r profiad i gleifion cancer a chydweithwyr y gweithlu cancer.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

- **Llesiant Delta Wellbeing a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn ennill gwobr 'Partneriaethau mewn TEC' am brosiect teleiechyd.**

Mae prosiect teleiechyd sy'n cynorthwyo cleifion ar draws gorllewin Cymru i reoli eu hiechyd a sicrhau eu bod yn ffit i gael llawdriniaeth wedi ennill gwobr gan y diwydiant am arloesedd.

Mae Llesiant Delta Wellbeing a Bwrdd Iechyd y Brifysgol wedi derbyn y wobwr Partneriaethau mewn TEC yng Ngwobrau ITEC 2023. Lanswyd y prosiect teleiechyd i gynorthwyo cleifion ar draws y rhanbarth i fonitro clefyd y galon, gweithrediad yr ysgyfaint, a chlefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint o bell yn eu cartrefi eu hunain gan ddefnyddio cyfarpar iechyd amrywiol wedi'i baru ag ap ffôn symudol.

Cafodd ei ehangu ymhellach i gynnwys cleifion orthopaedig sy'n aros am lawdriniaeth yn dilyn pandemig COVID, sydd wedi achosi oedi mawr gyda darparu gofal a gynlluniwyd, gan effeithio ar lesiant corfforol a seicolegol cleifion, a chynyddu'r baich ar wasanaethau gofal iechyd.

Bu Llesiant Delta Wellbeing yn gweithio'n agos â'r bwrdd iechyd a phartneriaid eraill i ddarparu gwasanaeth rhagsefydlu cost-effeithiol, diogel ac effeithiol gyda sawl ateb digidol i gefnogi ac optimeiddio iechyd a llesiant cleifion tra maent yn aros am lawdriniaeth. Mae hyn wedi arwain at ganslo llai o lawdriniaethau, llai o amser yn yr ysbyty adeg y weithdrefn, ac wedi gwella iechyd a llesiant cyffredinol cleifion.

Drwy fonitro cleifion o bell mae'r tîm clinigol yn gallu nodi cleifion sy'n dioddef o bwysedd gwaed uchel pan maent ar y rhestr aros a thrwy eu nodi a'u cyfeirio'n gynnar i ofal sylfaenol, gall y cleifion hyn reoli eu hiechyd, gan arwain at ganslo llai o weithdrefnau yn nes ymlaen. Drwy fonitro symptomau hunan-adrodd ar y plattform, gall y tîm clinigol nodi unrhyw gymorth sydd ei angen ar y claf ac uwchgyfeirio i'r tîm llawfeddygol os oes angen.

Cwmni Masnachu Awdurdod Lleol yw Llesiant Delta Wellbeing, sy'n eiddo i Gyngor Sir Gaerfyrddin, ac sy'n defnyddio technoleg arloesol i ddarparu amrywiaeth o atebion yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol sy'n cynorthwyo pobl hŷn ac agored i niwed i fyw'n fwy annibynnol.

- **Clinig cancer newydd yn ceisio gwella gofal i gleifion**

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi lansio gwasanaeth newydd i'r rhai sydd wedi cael diagnosis o ganser tebygol ond nad yw'n glir pa fath o ganser ydyw, a ble ddechreuodd y cancer.

Bydd gwasanaeth Malaenedd Tarddiad Anhysbys (MUO) yn galluogi cleifion â diagnosis cancer eilaidd i gael ymchwiliadau pellach i geisio penderfynu beth yw ffynhonnell y cancer a derbyn y driniaeth a'r gofal mwyaf priodol. Gan weithio'n agos â chydweithwyr ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, bydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda'n cynnig apwyntiadau i gleifion o fewn pythefnos i gael eu hatgyfeirio gan eu meddyg teulu a chyswllt gan y tîm MUO o fewn 48 awr i glaf sydd eisoes yn yr ysbyty.

Wedi'i leoli yn Uned Ddydd Haematoleg ac Oncoleg Sir Benfro yn Ysbyty Llwynhelyg, bydd cleifion sy'n cael eu hatgyfeirio gan eu meddyg teulu'n cael eu hasesu a'u hadolygu gan feddyg a chael nyrs glinigol oncoleg arbenigol wedi'i haseinio fel eu gweithiwr allweddol. Bydd y nyrs glinigol oncoleg yn helpu i gydlynu eu gofal ac yn eu cefnogi drwy eu taith.

Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

- **Gwelyau ail-alluogi yn agor yn Ysbyty Trefyclo**

Agorwyd pedair ystafell ail-alluogi yn Ysbyty Trefyclo i ddarparu mwy o ofal yn agosach i gartref ar gyfer preswylwyr Dwyrain Sir Faesyfed.

Cafodd Ward Panpwnton Ysbyty Trefyclo ei chau dros dro ar ddechrau pandemig COVID fel rhan o fodel ymateb COVID ym Mhowys, gyda'r staff yn cael eu symud i Ysbyty Llandrindod i helpu i sicrhau ymateb urddasol, cadarn a chryf i'r heriau oedd i ddod.

Wrth i ni ddechrau cymryd camau o bandemig i endemig, bu'r bwrdd iechyd yn gweithio ar gynllun i ail-agor y ward. Fodd bynnag, roedd cael staff nyrsio cofrestredig yn yr ysbyty wedi bod yn her cyn y pandemig gyda llawer o ddibyniaeth ar nyrsys banc ac asiantaeth, ac yn anffodus ni lwyddodd ymdrechion cyson i sicrhau lefelau staffio diogel.

Gyda'r ward yn dal i fod ar gau, a chyda heriau sylweddol yn wynebu'r sector gofal cartref yng nghanol Powys, daeth yn amlwg y gellid diwallu anghenion lleol mewn ffordd wahanol. Arweiniodd hyn at edrych ar wahanol opsiynau dros dro ar gyfer Ysbyty Trefyclo a bu modd i ni fanteisio ar y cyfleoedd a gyflwynwyd gan gartref gofal preswyl Cottage View oedd wedi'i leoli ar yr un safle. Felly, aethpwyd ati i ddatblygu pedair ystafell ail-alluogi i ddarparu gofal cam-i-lawr yn y gymuned leol tra bod pecyn cefnogol o ofal cartref yn cael ei roi ar waith. Mae lle i ddau berson yn un o'r ystafelloedd fel bod parau priod/partneriaid ag anghenion tebyg yn gallu cael eu cynorthwyo gyda'i gilydd.

Agorodd y gwelyau ail-alluogi ym mis Mai yn dilyn cymeradwyaeth gan Arolygiaeth Gofal Cymru. Er bod hyn yn dal i fod yn fesur dros dro o ystyried yr heriau o ran recriwtio a chadw nyrsys cofrestredig, mae'n cynnig cyfle pwysig i adolygu a gwerthuso gwahanol opsiynau ar gyfer diwallu anghenion iechyd a gofal yng nghefn gwlad.

- **Gwaith adnewyddu gwerth £15 miliwn yn Ysbyty Bro Ddyfi**

Ddiwedd mis Ebrill agorwyd cyfleusterau newydd yn dilyn ailddatblygu Ysbyty Bro Ddyfi ym Machynlleth. Mae cleifion yn dechrau defnyddio'r cyfleusterau ailddatblygedig yn yr Ysbyty Cymunedol yn awr diolch i £15 miliwn o gyllid gan Lywodraeth Cymru.

Ddiwedd mis Ebrill symudodd meddygfa Iechyd Bro Ddyfi i adeilad yr ysbyty newydd ac maent yn gweithredu o'u cartref newydd erbyn hyn.

Mae'r aildatblygu'n cynnig cartref newydd i staff bydwreigiaeth ac ymwelwyr iechyd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys hefyd ynghyd â'r Uned Iechyd Meddwl newydd i Oedolion a chlinigau ar gyfer y timau Podiatreg a Deintyddiaeth Gymunedol.

Mae llesiant cymunedol yn ganolog i'r prosiect gyda'r bwrdd iechyd yn cydweithio â'r sector gwirfoddol i ddarparu gwasanaethau llesiant yn yr adeilad. Mae'r cyllid wedi galluogi'r bwrdd iechyd i fynd i'r afael â nifer o faterion cynnal a chadw adeilad ysbyty Machynlleth hefyd yn ogystal â gosod manau gwefru cerbydau trydan.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

- **Pam mae siarad am ddymuniadau diwedd oes yn rhywbeth cadarnhaol i'w wneud**

Mae trafod misoedd, wythnosau ac eiliadau olaf eich bywyd yn bwnc y mae llawer o bobl yn dewis ei osgoi, ond mae tîm ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe'n annog pobl i gael yn sgwrs honno nawr – cyn iddi fynd yn rhy hwyr.

I gleifion sydd â chyflwr cronig sy'n cyfyngu ar fywyd ni ellir tanbrizio pwysigrwydd siarad ag anwyliaid a gweithwyr iechyd proffesiynol am beth maent eisiau yn ystod eu dyddiau olaf a phan maent yn marw.

Mae cael sgysiau agored a gonest yn y misoedd a'r wythnosau sy'n arwain at ddiwedd eu bywyd yn cynnig cyfle diogel i bobl rannu eu ceisiadau ar gyfer cam olaf eu bywyd. Gallai hynny ganolbwyntio ar yr opsiynau triniaeth gorau ar gyfer yr unigolyn hwnnw neu ganolbwyntio ar eu hanghenion crefyddol, ysbrydol neu gymdeithasol.

Gall arwain at wella'r gofal diwedd oes a ddarperir a lleihau'r baich ar deuluoedd neu ffrindiau agos. Mae'n lleddfu gorbryder yn aml – gan na fydd rhaid i berthnasau wneud penderfyniadau ar ran eu hanwyliaid, gan boeni am beth yw'r peth gorau i'w wneud. Gall osgoi triniaethau mewnwithiol digroeso neu ddi-fudd hefyd, gan gynnig ffordd fwy tawel i bobl farw.

Eleni, mae Tîm Gofal Diwedd Oes y Bwrdd Iechyd yn canolbwyntio ar 'Gynllunio Gofal Ymlaen Llaw ac i'r Dyfodol'.

Mae hyn yn cynnwys adnabod cleifion sy'n dod i ddiwedd eu hoes cyn gynted â phosibl, a chael sgysiau'n gynt fel y gellir trafod, cofnodi a pharchu eu ddymuniadau.

Er mwyn sicrhau bod ystod eang o'i weithlu'n gallu ymdrin â'r penderfyniadau hyn, mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu Hyrwyddwyr Gofal Diwedd Oes. Mae staff yn cael eu hyfforddi i adnabod pryd mae claf yn marw, i ddeall mwy am ofal diwedd oes ac i fod yn gyffyrddus i gael sgysiau anodd gyda chleifion.

- **Tîm arbenigol yn darparu gwasanaeth cyflymach i gleifion iechyd meddwl**

Mae cleifion sydd ag angen iechyd meddwl brys sy'n dod i Adran Ddamweiniau ac Achosion Brys Ysbyty Treforys yn cael eu hasesu o fewn awr gan dîm arbenigol yn awr.

Yn y gorffennol, byddai'n rhaid iddynt aros am oriau i gael eu gweld gan fod rhaid i staff yr Adran flaenoriaethu'r rhai ag anafiadau a chyflyrau meddygol difrifol.

Yn anffodus, gallai'r oedi achosi i rai cleifion â chyflyrau iechyd meddwl fynd yn ofidus, a allai arwain at ymddygiad camdriniol, ymosodol neu dreisgar hyd yn oed tuag at staff.

Ond nawr maent yn cael eu hasesu gan nyrs brysbennu a'u cyfeirio'n uniongyrchol i dîm yr Adran Seiciatreg Gyswllt o fewn awr.

Mae'r tîm amlddisgyblaeth yn cynnwys 36 aelod o staff, yn cynnwys seiciatryddion ymgynghorol, arbenigwyr cyswllt, nyrsys iechyd meddwl, therapyddion galwedigaethol a thechnegwyr, nyrsys camddefnyddio sylweddau, cynghorwyr mewngymorth, nyrs anabled dysgu a staff gweinyddol.

Mae'r gwasanaeth wedi derbyn achrediad safon aur gwasanaeth cyswllt iechyd meddwl – yr unig wasanaeth yng Nghymru i'w dderbyn.

Mae'r safon o ofal a thriniaeth a ddarparwyd dros y tair blynedd diwethaf wedi gweld yr adran yn bodloni'r holl safonau gofynnol i gael eu hailachredu gan y Rhwydwaith Achrediad Cyswllt Seiciatryddol (PLAN).

Mae'r tîm yn helpu oedolion ag amrywiaeth eang o broblemau iechyd meddwl, yn cynnwys dementia, yn ysbytai Treforys, Singleton, Castell-nedd Port Talbot a Gorseion.

Y tu allan i'r Adran Ddamweiniau ac Achosion Brys, mae cleifion yn cael eu hatgyfeirio i'r Tîm Seiciatreg Gyswllt o unrhyw ward am asesiad, rheoli meddyginiaeth neu i sefydlu cynllun rheoli, sy'n cynnwys a oes angen eu hatgyfeirio i gael eu derbyn mewn uned seiciatryddol, i gael triniaeth gartref neu eu cyfeirio i ofal sylfaenol.

Mae'r gwasanaeth ar gael bob dydd rhwng 7am-10pm, gyda tharged amser ymateb o awr i unrhyw glaf 18 oed a throsodd sydd wedi'i atgyfeirio o'r Adran Ddamweiniau ac Achosion Brys.

Ar hyn o bryd, mae 92 y cant o'r cleifion yn cael eu rhyddhau i'w cartref neu'n cael eu cyfeirio at asiantaethau eraill am gymorth pellach. Er mwyn ennill achrediad PLAN, bu'n rhaid i'r tîm gwblhau archwiliadau tra bod defnyddwyr gwasanaethau'n rhoi barn ar eu profiad. Bu staff o dimau cyswllt byrddau iechyd eraill yng Nghymru a Lloegr yn archwilio'r gwasanaeth hefyd.

Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwllans Cymru / Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwllans Brys

- **Gwobr Arwr Dementia am Ragoriaeth Broffesiynol**

Mae Gwasanaeth Ambiwllans Cymru wedi ennill gwobr arall fawr ei bri am ei waith yn cefnogi cleifion dementia. Enillodd Tîm Dementia'r Ymddiriedolaeth Wobr Arwr Dementia am Ragoriaeth Broffesiynol (Sefydliad) yng Ngwobrau'r Gymdeithas Alzheimer 2023.

Mae Gwobrau Arwyr Dementia'n dathlu cyfranogiad pobl sydd wedi'u heffeithio gan ddementia a'r effaith maent yn ei chael ar eraill sy'n byw gyda'r cyflwr.

Mae Gwasanaeth Ambiwllans Cymru'n darparu gwasanaeth i dros dair miliwn o bobl yng Nghymru, ac mae Sefydliad Iechyd y Byd yn dweud bod dementia'n parhau i fod yn un o heriau gofal iechyd mwyaf yr 21ain ganrif.

Y llynedd, dechreuodd y Tîm Dementia dreialu 20 llechen Gweithgareddau Rhyngweithiol Therapi Atgofion (RITA) yng Nghymru gan dderbyn y wobwr am y defnydd mwyaf arloesol o RITA yn 2022 yng Nghynhadledd a Gwobrau Grŵp Defnyddwyr RITA.

Fis diwethaf, lansiodd yr Ymddiriedolaeth gerbydau Gwasanaeth Cludo Cleifion Di-argyfwng newydd o'r radd flaenaf, sy'n cynnwys llawr, bleindiau a chynlluniau lliwiau addas i bobl â dementia i helpu i wella profiad cleifion.

Mae Gwasanaeth Ambiwllans Cymru'n cael ei gydnabod fel Sefydliad Dementia Gyfeillgar gan y Gymdeithas Alzheimer.

- **Technoleg Ystafell Reoli newydd yn helpu WAST i ymateb yn well i alwadau 999**

Mae Gwasanaeth Ambiwllans Cymru wedi cyflwyno technoleg newydd i wella'r ffordd mae'n ymateb i alwadau 999.

System teleffoni a chyfathrebu yw LifeX sy'n helpu gweithredwyr ystafelloedd rheoli i gyfathrebu'n well â chiriwiau'r rheng flaen a phrosesu gwybodaeth mewn ffordd symlach.

Yr Ymddiriedolaeth yw'r gwasanaeth ambiwlans mwyaf yn y DU hyd yn hyn i fynd yn fyw gyda'r system newydd, sydd wedi'i chynllunio i reoli adnoddau'n fwy effeithiol.

Darparwyd y datrysiad newydd ar y cyd â'r partneriaid Frequentis ac Ambulance Radio Programme dros gyfnod o dri diwrnod.

Gofal Iechyd Digidol Cymru

- **Dogfennau cleifion pediatreg mewnol i fynd yn ddigidol**

Bydd system ddigidol arloesol ar gyfer nodiadau cleifion yn symud i'w drydydd cam wrth i nodiadau plant sy'n gleifion mewnol gael eu cynnwys yn y system.

Ddwy flynedd ar ôl lansio Cofnod Gofal Nyrsio Cymru yn Ebrill 2021 bydd y prosiect yn symud i'r cam nesaf yn awr, gyda dogfennau ar gyfer cleifion pediatrig mewnol yn mynd yn ddigidol yn awr diolch i £1.8 miliwn o gyllid gan Gronfa Buddsoddi Blaenoriaethau Digidol Llywodraeth Cymru.

Mae cam un a dau'r prosiect wedi canolbwyntio ar wardiau cleifion mewnol (oedolion) mewn ysbytai aciwt a chymunedol. Mae system ddigidol wedi disodli nodiadau papur traddodiadol, gan drawsnewid y ffordd mae nyrsys yn cofnodi, storio a chyrru gwybodaeth.

Mae nyrsys yn treulio llai o amser erbyn hyn yn dyblygu gwybodaeth ar ffurflenni papur a mwy o amser yn gofalu am gleifion. Mae gallu cael gafael ar nodiadau digidol cyfredol a chywir yn galluogi nyrsys i wneud penderfyniadau gwybodus am ofal claf, waeth ble mae'r gofal yn cael ei ddarparu. Gellir ehangu'r manteision hyn i gleifion pediatrig mewnol nawr yn ystod cam tri'r prosiect.

- **Iechyd Gofal Digidol Cymru'n derbyn dyfarniad Aur yn y safon iechyd a llesiant**

Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW) wedi cael llwyddiant yn y Safon Iechyd Gorfforaethol – lefel Aur – Gwiriad Statws Uwch. Mae'r dyfarniad yn cael ei roi i gyflogwyr sy'n dangos rhagoriaeth mewn iechyd a llesiant yn y gweithle.

Dywedodd yr aseswyr: "Roedd hi'n amlwg iawn bod ethos a diwylliant llesiant DHCW yn benigamp, yn flaengar ac yn gynhwysfawr, gyda'i ddull wedi esblygu i fod yn gwbl strategol. Mae'n amlwg bod llesiant wrth wraidd holl waith DHCW.

Nododd yr aseswyr: “Mae’r seilwaith ar gyfer llesiant staff wedi’i hen sefydlu ac wedi’i gryfhau ymhellach yn ddiweddar drwy waith y rhwydwaith iechyd a llesiant, sy’n gweithredu fel hyrwyddwyr llesiant. Mae ethos llesiant yn cael ei arddangos gan arweinwyr ar draws y sefydliad, yn cynnwys y Prif Weithredwr, sydd, yn ei sesiynau briffio misol i’r staff, yn eu hatgoffa’n gyson i ofalu am eu llesiant eu hunain ac i gefnogi eraill. Mae yna ddealltwriaeth fanwl hefyd o rôl rheolwyr llinell o ran hyrwyddo ac amddiffyn llesiant, ac mae adnoddau sylweddol wedi’u neilltuo i wella hyder a sgiliau rheolwyr llinell i fod yn gyfrifol am lesiant.”

Mae gan DHCW fframwaith iechyd a llesiant tair blynedd ar waith, ac mae amcanion llesiant wedi’u cynnwys yn ei gynllun tymor canolig integredig.

Addysg a Gwella Iechyd Cymru

- **Datgelu strategaeth genedlaethol newydd addysg seiliedig ar efelychu**

Mae Addysg a Gwella Iechyd Cymru wedi lansio strategaeth addysgu a hyfforddiant seiliedig ar efelychu (SBET) a fydd yn gwella sgiliau gweithlu heddiw ac yfory gan ddefnyddio’r technolegau efelychu a throchi diweddaraf.

Mae’r strategaeth, a ddatblygwyd ar y cyd â’r gymuned efelychu gofal iechyd a chynrychiolwyr lleig, yn darparu gweledigaeth strategol ar gyfer addysg seiliedig ar efelychu a fydd yn safoni darpariaeth SBET ac yn adeiladu ar arferion da presennol ledled Cymru.

Mae’n datblygu cyfleoedd cydweithio ymhellach â rhanddeiliaid allweddol hefyd sy’n berthnasol i SBET yng Nghymru, fel gyda Hyb Gwyddorau Bywyd Cymru, gwledydd eraill y DU a chyda cydweithwyr rhyngwladol, i gyfoethogi dysgu rhyngbroffesiynol.

- **Rhaglen addysg genomeg newydd i wella gofal i gleifion**

Mae Addysg a Gwella Iechyd Cymru wedi bod yn gweithio gyda Phartneriaeth Genomeg Cymru i ddatblygu e-ddysgu hyblyg i gynyddu dealltwriaeth staff o enomeg a gwella gofal i gleifion ledled Cymru.

Wrth i dechnoleg genom wella ein dealltwriaeth o glefydau fel canser a chlefyd y galon, gallwn addasu a newid y gofal a roddwn i gleifion gan arwain at well canlyniadau iddynt. Nod y dysgu newydd hwn yw annog staff sy’n gweithio mewn meysydd fel oncoleg, cardioleg a phaediateg i astudio genomeg sy’n berthnasol i’w swydd a defnyddio’r dysgu hwnnw i wella gofal i gleifion.

Dywedodd Dirprwy Gyfarwyddwr Comisiynu Addysg ac Addysg o Ansawdd, AaGIC: “Datblygu ein gweithlu presennol a’n gweithlu ar gyfer y dyfodol yw un o’n prif nodau ac mae sicrhau bod addysg a dysgu’n cyd-fynd â’r datblygiadau diweddaraf mewn technoleg a llythrennedd iechyd yn hollbwysig.

“Mae’r rhaglen newydd hon yn hyblyg, dwyieithog a rhyngweithiol ac yn cynnig gwahanol lefelau astudio; o’r lefel gyflwyniadol i staff nad oes ganddynt gefndir ym maes genomeg i lefel Meistr. Mae’n adlewyrchu adborth gan staff hefyd sydd am gael dealltwriaeth well o sut y gallant ddefnyddio genomeg yn eu swyddi fel y gallant wella’r canlyniad ansawdd gofal i gleifion ledled Cymru.”

Meddai Pennaeth Rhaglenni [Partneriaeth Genomeg Cymru](#): :“Mae’r datblygiadau cyflym ym maes genomeg, o ran technoleg ac o ran ein dealltwriaeth, yn rhoi cyfleoedd enfawr i wella gofal iechyd. Ond rydyn ni’n deall na ellir gwireddu’r budd hwn i’n cleifion heb uwchsgilio a grymuso’r gweithlu gofal iechyd a hynny er mwyn sicrhau bod genomeg yn dod yn rhan annatod o’r llwybrau cleifion. Mae’r modiwlau genomeg rhagarweiniol ac arbenigol hyn yn sicrhau’r hyfforddiant priodol. Mae’n hanfodol ein bod yn eu hyrwyddo yn eang i’n staff yn y Gwasanaeth Iechyd yng Nghymru i godi ymwybyddiaeth o genomeg a’r cyfleoedd sydd ar gael i wella gofal clinigol eu cleifion. Bydd yn allweddol hefyd bod uwch arweinwyr ar draws y Gwasanaeth Iechyd yn mynd ati i annog a helpu staff i gymryd rhan ym modiwlau perthnasol eu maes clinigol.”

Partneriaeth Gwasanaethau a Rennir Cenedlaethol Cymru

- **Asesiad Ansawdd Allanol – Archwiliad Mewnol**

Bob pum mlynedd mae’n rhaid i bob darparwr archwilio mewnol gael asesiad ansawdd allanol annibynnol i asesu a ydynt yn cydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus ai peidio. Aeth Gwasanaethau Archwilio a Sicrwydd Partneriaeth Gwasanaethau a Rennir Cenedlaethol Cymru drwy broses gystadleuol a phenodi Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg (CIPFA) i gynnal yr asesiad.

Cynhaliwyd yr asesiad ym mis Mawrth 2023 ac roedd yn cynnwys: asesu’n hunanasesiad ein hunain a’r dystiolaeth a ddarparwyd i’w gefnogi; adolygiad manwl o ddogfennau a ffeiliau; adolygiad o 10 ffeil archwilio; cyfweiliadau â nifer o bobl; ac arolwg o Gadeiryddion y Pwyllgor Archwilio ac Ysgrifenyddion y Bwrdd.

“Rhoddodd CIPFA'r radd uchaf bosibl i ni gan ddweud yn eu hadroddiad ein bod ni’n cydymffurfio’n llawn â gofynion Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. Nid oedd unrhyw feysydd o gydymffurfio rhannol neu ddiffyg cydymffurfio â’r safonau nac unrhyw argymhellion penodol.

Byddwn yn cymryd canlyniadau’r Archwiliad Ansawdd Allanol, yn enwedig canfyddiadau’r arolwg, i gefnogi ein datblygiad a’n gwelliant parhaus dros y blynyddoedd nesaf, a bydd hyn yn cyd-fynd â set newydd o safonau archwilio mewnol i’r sector cyhoeddus a fydd yn cael eu gweithredu dros y blynyddoedd nesaf.”

Mae’r adroddiad wedi’i dderbyn gan Bwyllgor Archwilio Partneriaeth Gwasanaethau a Rennir Cenedlaethol Cymru ac wedi’i rannu â holl Ysgrifenyddion y Byrddau.

- **Cronfa Risg Cymru – Cydsyniad Cymru Gyfan i e-Ddysgu Archwilio a Thriniaeth**

Cydgysylltodd Partneriaeth Gwasanaethau a Rennir Cenedlaethol Cymru lansiad Cydsyniad Cymru Gyfan i e-Ddysgu Archwilio a Thriniaeth ar 30 Mawrth 2023. Y prif siaradwr oedd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Mae’r pecyn e-Ddysgu wedi’i ddatblygu’n broffesiynol gyda chwmni cynhyrchu, The Sound Doctor, gyda phawb sydd wedi treialu’r hyfforddiant yn dweud pa mor effeithiol yw’r pecyn a’i fod yn canolbwyntio ar anghenion clinigwyr prysur.

Mae gwaith ymchwil yn dangos bod problemau’n gysylltiedig â chydsyniad yn cael eu cyflwyno fel honiadau mewn cyfran fawr o hawliadau a dderbynnir gan GIG Cymru a bod yna ddarlun tebyg yng ngwledydd eraill y DU hefyd. Mae rhwng £10 a £20 miliwn o ad-daliadau’n cael eu gwneud bob blwyddyn mewn perthynas â hawliadau lle mae problemau’n ymwneud â chydsyniad yn ffactor. O fynd i’r afael ag achosion yr hawliadau

sy'n ymwneud â chydysniad, mae'n amlwg y gellir gwneud arbedion sylweddol mewn perthynas â'r cwantwm ymglyfreitha.

Yn gywir

A handwritten signature in blue ink, appearing to read 'M. E. Morgan'.

Eluned Morgan AS/MS

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services